# Addysgu'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd gyda Derbyn

Llythrennedd | Rhifedd | Cymhwysedd Digidol

## Model 1 – Dysgu'n seiliedig ar thema




https://www.google.co.uk/search?q=sue+palmer+discussion+skeleton&source=lnms&tbm=isch&sa=X&ved=0ahUKEwjap9Pr3JjfAhVR-qQKHQSqAIYQ_AUIDigB&biw=1366&bih=657#imgrc=GVKajRjLCB-SCM:

### Thema: Bwyta'n iach

#### Pwysigrwydd cadw'n iach

Trafod bod angen ymarfer corff a bwyd iach ar bawb, siarad amdanynt eu hun. Defnyddir sgerbwd trafodaeth Palmer, (2010) er mwyn cynnal y trafodaethau.

Trafod â'r plant am ba fwydydd dylen nhw fwyta'n aml a pha fwydydd ni ddylen fwyta mor aml. Gofynnir cwestiynau pwrpasol trwy ddefnyddio'r dull Tacsonomeg Bloom, (1956, dyfynnwyd yn Grigg, 2015).

Cysylltir â ADCDF, sylweddoli bod angen amrywiaeth o fwydydd ar bawb. Cymhwysir y sgil "gofyn cwestiynau am rywbeth a ddywedwyd" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.16).

Dealltwriaeth nad oes gan bawb y mynediad i'r pethau hyn.

Didolir bwydydd a diodydd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol mewn i gategori bwydydd iach a bwydydd afiach. Atgyfnerthir y sgil "cyfnewid syniadau wrth drafod yn unigol ac mewn grwpiau bach, e.e. gyda ffrindiau" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.17) Disgwylir I'r disgyblion i arbed eu gwaith ar ôl didoli'r bwydydd a'r diodydd yn y categori o'u dewis. "arbed gwaith drwy glicio ar eicon a deall y gellir adfer y gwaith" (LlC, 2016).

Llanw bag llawn llysiau, cael y disgyblion i ddewis un allan o'r bag a'i ddisgrifio. Atgyfnerthir hyn gysyniad y disgyblion o wahanol lysiau. Bydd gofyn iddyn nhw ddisgrifio'r llysiau yn ôl eu lliw, maint, edrychiad a'u teimlad. Atgyfnerthir y sgil "defnyddio geiriau, cymalau a brawddegau syml" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.14)

Dosbarthir y gwahanol lysiau i'r disgyblion, gofynnir iddyn nhw eu didoli yn ôl maint, y mwyaf a lleiaf, datblygir y sgil. "defnyddio'r cymariaethau canlynol yn uniongyrchol: - hyd" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.35).

#### Creu pecyn bwyd

Cynhelir trafodaeth fesul dosbarth ar hoff fwydydd y disgyblion, Gofynnir i'r disgyblion i greu pecyn bwy eu hunain gan dynnu llun yr hyn bydden nhw yn eu cynnwys. Bydd gofyn iddyn nhw liwio'r bwydydd yn y pecyn bwyd gan labeli'r bwydydd gyda chymorth oedolyn trwy ddatblygir sgil, "copïo ac ysgrifennu llythrennau, geiriau ac ymadroddion" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t. 24). Sicrheir y sgil yma y bydd y disgyblion yn dala'r offer yn y modd priodol trwy atgyfnerthir sgil, "dal offer ysgrifennu mewn modd priodol" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t. 24).

#### Hoff ffrwyth y dosbarth

Fesul dosbarth, crëir siart tali er mwyn gweld beth yw hoff ffrwythau'r disgyblion. Fesul un adroddir y dysgwyr eu hoff fwyd gan roi rheswm dros ei dewis. "mynegi beth yw eu hoff bethau a'u cas bethau" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.14).

Yn dilyn casglu'r holl wybodaeth bydd y disgyblion yn creu pictogram ar J2e. Amlygir y sgil "creu pictogram syml, gan ddefnyddio meddalwedd addas." (LlC, 2016).

Ar ôl cwblhau'r pictogram yn effeithiol, byddwn yn dadansoddi'r pictogramau fesul dosbarth. Gofynnir I'r disgyblion cwestiynau megis 'sawl person sydd yn hoffi afalau ac oren?'. Trwy hyn ddatblygir y sgil, "cyfuno dau grŵp o wrthrychau er mwyn canfod 'faint sydd yna yn gyfan gwbl?'" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.33).

#### Yr ardal leol

Hebryngir y disgyblion i lawr i'r siop leol. Trafodir gyda'r disgyblion y llysiau a'r ffrwythau gwanhaol y gellir eu prynu mewn siop. Y bwriad felly yw prynu ffrwythau gan ddefnyddio arian er mwyn gwerthu yn siop ffrwythau'r ysgol.

Rhannir y disgyblion mewn i grwpiau o 5 lle byddwn nhw'n gyfrifol am brynu llysiau penodol.

Pwysleisir pwysigrwydd o drafod gyda pherchennog y siop trwy ddatblygir y sgil "siarad yn glywadwy" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.14) Trafodir arian go iawn wrth dalu am y llysiau yn y siop leol. Datblygir y sgil "defnyddio darnau arian 1c, 2c, 5c a 10c i dalu am eitemau" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.34).

Addaswyd o Barnes, (2015, t. 70)

Pwysleisir y dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn y cwricwlwm newydd a dylai'r cyfrifoldebau hynny cael ei hintegreiddio yn ddiffuant ar draws y meysydd dysgu, (Donaldson, 2015).










https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf

Dywed Estyn, (2016) dylai athrawon fanteisio ar unrhyw gyfle i atgyfnerthu llythrennedd a rhifedd yng ngwersi, fodd bynnag herir y syniad ni ddylen orfodi'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd os nad oes gwir bwrpas. Atgyfnerthir hyn gan Donaldson, (2015) a'r pwysigrwydd o sicrhau bod pwrpas i'r hyn a gynlluniwyd i'r dysgwyr.

## Model 2 – Hierarchaidd

### Thema: Anifeiliaid y fferm

#### Gwell Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Wrth gyfuno'r holl wybodaeth a ddysgwyd, defnyddir dull Corbett (2011) er mwyn ailadrodd stori 'Helô Anifeiliaid'. Datblygir y sgil "cyfrannu i weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t. 14). Defnyddir y mygydau a grëwyd yn y wers i atgyfnerthu'r chwarae rôl.

#### Datblygiad Creadigol

Gweithgaredd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol fel pâr i gysylltu'r anifeiliaid gyda'u sŵn trwy adnabod a disgrifio synau, https://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/wsl/fph_welsh_190209/y_fferm/activity/index.html Datblygir y sgil, "gweithio gyda phartner/partneriaid ar ddarn o waith digidol", (LlC, 2016).
Dosberthir templed o fygydau gwahanol yn yr adran allanol. Gofynnir iddyn nhw ddewis eu hoff anifail a'i addurno gan ddewis deunyddiau ac adnoddau addurno a cheir eu dosbarthu ar y bwrdd creadigol yn yr adran allanol. Gallasent dangos eu dawn ymarferol wrth arbrofi gyda deunyddiau gwahanol. Yn dilyn hynny bydd disgwyl iddyn nhw wneud synau'r anifail o'u dewis a chanu cân gydag eraill sydd yn ymwneud â'r anifeiliaid gan ddatblygu'r sgil, "ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi, rhigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof, gyda pheth cymorth" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t. 16).

#### Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Darllen stori 'Helô Anifeiliaid'. Defnyddio ffynhonnell stori gan gymryd rhan yn eu dysgu "dilyn testunau sy'n cael eu darllen iddynt gan ymateb yn briodol" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t. 22). Ymholi a gofyn cwestiynau am yr anifeiliaid gwahanol, yn ogystal a ystyried y gwahaniaeth rhwng yr anifeiliaid gwahanol. Datblygu ymwybyddiaeth o synau'r anifeiliaid gan geisio adrodd yr hyn maen nhw'n gwybod yn barod trwy "siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.14).
Ceisio defnyddio geirfa briodol. Datblygir rhifedd yn y wers trwy gyfri sawl coes sydd gan wahanol anifeiliaid, gan ddatblygu'r sgil "cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t. 31). Gofynnir cwestiynau pwrpasol i'r disgyblion yn seiliedig ar Dacsonomeg Bloom.
Cyfatebu darnau Numicon â'r nifer o decannau anifeiliaid a ddosbarthir. Ymarfer adrodd y rhifau ar lafar trwy ddatblygu'r sgil, "cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t. 31).




https://questioningedmt903.weebly.com/blooms-taxonomy-questions.html

Addaswyd o Barnes, (2015, t. 67).

Dewiswyd y thema 'Bwyta'n iach' gan ei fod yn gwireddu un o themâu ADCDF, 'Iechyd', "cydnabod pwysigrwydd bwyta'n briodol ac ymarfer corff" (APADGOS, 2008, t.26). Ymhelaethir ar y dewis o'r thema hon gan ei bod hi'n ofynion bod disgyblion yn llwyddo gyda deilliant 4, lle byddwn yn "ymwybodol o arferion bwyta'n iach, a gallant wahaniaethu rhwng bwydydd iach a bwydydd nad ydynt yn iach" (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t. 52). Defnyddiwyd y thema oherwydd galluogir i gynnal gwahanol weithgareddau byddai'n gwella dealltwriaeth y disgyblion. Ceir hefyd y cysylltiad gyda'r cwricwlwm Cymreig trwy'r fodel hon gan greu'r cysylltiadau gyda'r ardal leol gan fod y dysgwyr yn archebu ffrwythau o'r siop leol, (ACCAC, 2003).
Dewisiwyd y thema anifeiliaid y fferm gan ei fod yn thema eang, lle galluogir i gynnal nifer o wahanol weithgareddau gwahanol yn yr awyr agored a thu fewn. Pwysleisir pwysigrwydd yr awyr agored lle mae'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chreadigol ar gyfer dysgu trwy brofiad, (APADGOS, 2009). Galluogir y model hierarchaidd mi i ddatblygu'r maes dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth y Byd gan ddatblygu Datblygiad Creadigol yn y broses.

### Manteision y model 'Dysgu seiliedig ar thema':

- Mae'n sicrhau bod y gwaith yn …

1. ddilys
2. Cysylltiedig
3. Gallu cael ei gynllunio i bwrpas
4. Cysylltu â thargedau a dysgu pellach - gallu ei asesu'n hawdd
5. Cael ei ychwanegu gan bynciau sydd angen dealltwriaeth bellach, Barnes, (2015)

- Gweithio'n dda i hyrwyddo a chymhelli ddysgwyr pan fydd y thema yn nwylo athrawon hyderus a gwybodus
- Dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion

### Cyfyngiadau'r model 'Dysgu seiliedig ar thema':

- Mewn achlysur lle mae amcanion aneglur yn cael ei rhoi, byddai'n cyfyngu'r dysgu

### Manteision y model 'Hierarchaidd':

- Dyma'r fodel fwyaf cyffredin lle gall dull trawsgwricwlaidd cael ei ddefnyddio
- Datblygir y maes gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygir y maes Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Byd trwy ddatblygiad creadigol
- Gall gwybodaeth pwnc gwannach athrawon cael ei ddatblygu yn yr ail gylch, cytuno gwna Driscoll, Lambirth, Roden, (2012).

### Cyfyngiadau'r model 'Hierarchaidd':

- Dim ond un maes dysgu bydd yn cael ei ddatblygu (Barnes, 2015).